

# ASESIAD DIGONOLRWYDD CHWARAE CEREDIGION 2025

## Crynodeb Gweithredol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

CEREDIGION ACTIF



# Tabl Cynnwys


1. Digonolrwydd Chwarae yng Ngheredigion: Trosolwg
2. Pwy sy'n rhan o'r ADCh?
3. Sut ydym ni'n Casglu ein Mewnwelediadau
4. Beth oedd ein darganfyddiadau?
5. Deall y Canlyniadau
   - a. Plant a Phobl Ifanc
   - b. Lleoliadau cyn-Ysgol, Cylchoedd, Grwpiau Chwarae a Chanolfannau Teulu
   - c. Ysgolion Cynradd
   - ch. Cynghorau Tref a Chymuned
   - d. Partneriaid Mewnol ac Allanol
6. Ein Cynllun ar gyfer y Dyfodol




# 1. Digonolrwydd Chwarae yng Ngheredigion: Trowolwg

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - Erthygl 31**

“Mae gan blant yr hawl i chwarae ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden eraill. Bydd y wladwriaeth yn diogelu ac yn sicrhau'r hawl hon, gan ystyried pwysigrwydd chwarae ar gyfer datblygiad a lles plant."

## Llywodraeth Cymru a Pholisi Chwarae

Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ffurfiol fel sail y broses o lunio polisi sy'n ymwneud â phlant. Mae hyn yn cynnwys cydnabod pwysigrwydd chwarae yn natblygiad a lles plant. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae amlddisgyblaethol i wneud argymhellion ar sut y dylai chwarae ddatblygu yng Nghymru.

Yn 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i basio deddfwriaeth a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu a darparu digon o gyfleoedd i blant chwarae. Cafodd y ddyletswydd ddeddfwriaethol hon, a gynhwysir yn adran Cyfleoedd Chwarae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, ei gweithredu fesul dau gam. Ym mis Tachwedd 2012, roedd y cam cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu argaeledd cyfleoedd chwarae yn eu hardaloedd, ac erbyn mis Gorffennaf 2014, dechreuodd yr ail gam, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau, lle bo hynny'n rhesymol bosibl, y darperir digon o gyfleoedd i blant chwarae.

## Ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion i Chwarae



Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod ac yn cefnogi hawl pob plentyn i chwarae, gan gyd-fynd â deddfwriaeth ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod plant yn cael digon o gyfleoedd i chwarae. Nod Cyngor Sir Ceredigion yw annog a chefnogi cymunedau i greu a datblygu amgylcheddau lle gall plant a phobl ifanc gymryd rhan mewn chwarae a lle mae oedolion yn cydnabod ac yn hyrwyddo gwerth chwarae.

Mae chwarae yn gyfrannwr sylfaenol at gyflawni Amcanion Llesiant Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion:

- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi i bobl o bob oed ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd sydd â chysylltiadau da

Cefnogir yr amcanion hyn gan ymrwymiadau fel:

- Sicrhau bod gan blant fynediad at weithgareddau ar ôl ysgol, gyda'r nos ac ar benwythnosau, gan gynnwys chwarae o'u dewis a hunan-gyfeirio
- Annog pobl o bob oed i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a chorfforol sy'n cefnogi iechyd a lles.
- Cefnogi plant i ddatblygu sgiliau symud sylfaenol, dysgu nofio, a ffynnu mewn amgylcheddau chwarae cynhwysol.
- Mynd i'r afael ag amddifadedd gwledig a galluogi cymunedau i greu cyfleoedd chwarae sy'n deg.

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae (ADCh) 2025 yn ymestyn ymrwymiad Ceredigion drwy adeiladu ar y gwaith a wnaed yn 2022. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o gyfleoedd chwarae ar draws y sir ac yn amlinellu camau gweithredu y gellir eu cymryd i ymgorffori chwarae ymhellach yn niwylliant a chymunedau Ceredigion.

**Amgylchedd Naturiol a Chyfleoedd Chwarae Ceredigion**

Fel sir wledig yn bennaf, mae Ceredigion yn ffodus o gael amgylchedd naturiol cyfoethog sy'n cefnogi chwarae. Gydag amrywiaeth o dirweddau, gan gynnwys mynyddoedd, traethau a mannau gwyrdd helaeth, mae Ceredigion yn cynnig nifer o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Yn ogystal â'i hamgylchedd naturiol syfrdanol, mae gan Geredigion 73 o barciau ac ardaloedd chwarae, sy'n cynnig digon o fannau lle gall plant gymryd rhan mewn chwarae. Mae'r amgylcheddau amrywiol hyn yn adnoddau allweddol ar gyfer annog gweithgarwch corfforol a chyfoethogi profiadau chwarae plant.





**Ein Taith: Cynnydd ers 2022**

Ers cwblhau Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2022, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cydweithio â phartneriaid a chymunedau i wella cyfleoedd chwarae ledled y sir. Mae'r cyflawniadau hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i greu mannau diogel, cynhwysol a hygyrch lle gall plant a phobl ifanc ffynnu trwy chwarae.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau allweddol yr hyn rydym wedi'u cyflawni ers 2022:

- Rydym wedi gwella'r ddarpariaeth chwarae mewn ardaloedd gwledig drwy weithio gyda phartneriaid i ddarparu mwy o weithgareddau allgymorth.
- Rydym wedi gwella'r ddarpariaeth chwarae drwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg drwy ddarparu cyfleoedd chwarae yn y Gymraeg ledled Ceredigion.
- Rydym wedi darparu cyfleoedd chwarae rhyw sengl ar draws y sir.
- Rydym wedi creu cyfleoedd chwarae hygyrch i Ofalwyr Ifanc.
- Rydym wedi cynnal Asesiadau Gwerth Chwarae ac Archwiliadau Mynediad ym mhob parc ac ardal chwarae yng Ngheredigion.
- Rydym wedi helpu Darparwyr Chwarae i wella eu hardaloedd chwarae er mwyn gallu cynnig cyfleoedd chwarae cyfoethog.
- Rydym wedi darparu cyrsiau Lefel 1 a Lefel 2 Chwarae ar gyfer gwirfoddolwyr a staff yng Ngheredigion
- Rydym wedi cynnwys cyfrifoldebau datblygu chwarae ym mhob disgrifiad swydd staff Gweithgarwch Corfforol a Chwarae.
- Rydym wedi parhau i feithrin perthynas waith gryf gyda phartneriaid allweddol
- Rydym wedi hyrwyddo chwarae o fewn yr Awdurdod Lleol ar lefel strategol.

**Gofyniad Statudol ar gyfer Asesiadau Digonolrwydd Chwarae**

Rhwng 2022 a 2025, mae'r templed ADCh wedi'i ailstrwythuro o amgylch pedair thema allweddol sy'n dylanwadu ar brofiadau chwarae plant. Mae'r themâu hyn yn cynnwys:

- Poblogaeth
- Lleoedd lle mae plant yn chwarae
- Darpariaeth dan oruchwyliaeth
- Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth, a gwybodaeth




Mae'r broses hon yn rhan o'r ddyletswydd statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu ac adrodd ar argaeledd a digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd. Mae hyn yn sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ffactorau sy'n effeithio ar hygyrchedd plant i chwarae, gan alluogi datblygu cynlluniau gweithredu wedi'u targedu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

**Poblogaeth Chwarae yng Nghheredigion**

Mae Ceredigion yn cwmpasu ardal o 1,900 km² ac mae'n ardal wledig i raddau helaeth, sy'n cynnwys tir amaethyddol, rhostir, a choedwigaeth. I'r gorllewin, mae'r sir wedi'i ffinio gan arfordir, ac i'r dwyrain, mae'r ucheldiroedd yn creu rhan sylweddol o Fynyddoedd Cambria.

Mae amcangyfrifon canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer 2023 yn nodi poblogaeth Ceredigion yn 73,050, gyda 12,344 o blant 0-18 oed. Mae'r siart ar y dde yn rhoi dadansoddiad o nifer y plant yng Nghheredigion fesul grŵp oedran.

Yn ôl amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2018, mae disgwyl i boblogaeth plant Ceredigion ostwng 12.7% erbyn 2043.




IO ran ethnigrwydd, o'r 12,572 o blant yng Nghheredigion, mae 94% yn wyn, gyda 326 yn nodi eu bod yn perthyn i grwpiau ethnig cymysg neu niferus, 237 yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, 94 yn ddu, Caribïaidd Affricanaidd, neu ddu Prydeinig, a 101 yn perthyn i grwpiau ethnig eraill.

Yn 2022, roedd 3,930 o blant yng Nghheredigion yn byw mewn tlodi. Yn ogystal, mae gan 811 o ddisgyblion y sir anghenion addysgol arbennig, sy'n cyfateb i 12.2% o'r holl ddisgyblion.

Mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn rhan annatod o fywyd yng Nghheredigion, gyda 71.8% o blant 3-15 oed yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl Cyfrifiad 2021.

94% o blant sy'n byw yng Nghheredigion yn nodi eu bod yn wyn

Oddeutu 31% o blant yn byw mewn tlodi.

Oddeutu 12% o blant oedran ysgol ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Oddeutu 72% o blant rhwng 3-15 oed yn gallu siarad Cymraeg.

## 2. Pwy sy’n rhan o’r ADCh?

Cynhaliwyd Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2025 gan y Gwasanaeth Canolfannau Lles ar ran Cyngor Sir Ceredigion. Er mwyn sicrhau trosolwg cynhwysfawr o ddigonolrwydd chwarae ledled Ceredigion, gwnaethom ymgysylltu ag ystod o bartneriaid mewnol ac allanol. Cynorthwyodd y partneriaid hyn i ddarparu persbectif amrywiol ar y ddarpariaeth bresennol a'r bylchau mewn gwasanaethau chwarae. Isod mae tabl sy'n rhestru'r cydweithwyr mewnol ac allanol allweddol.

| Partneriaid Mewnol | Partneriaid Allanol |
| --- | --- |
| • Polisi a Pherfformiad<br>• Gofal Plant<br>• Economi ac Adfywio<br>• Teithio Llesol a Diogel<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Ymyrraeth Gynnar<br>• Llyfrgelloedd<br>• Canolfannau Hamdden a Lles<br>• Gweithgaredd Corfforol a Gwasanaeth Chwarae<br>• Theatr Felinfach<br>• Gwasanaeth Ieuenctid<br>• Gwasanaeth Ysgolion gan gynnwys Lles, Cynhwysiant ADY a Phartneriaethau Cymunedol<br>• Tim Plant Anabl<br>• Dechrau'n Deg<br>• Cered<br>• DASH | • RAY Ceredigion<br>• CAVO<br>• Canolfannau Teulu<br>• Plant Dewi<br>• jig-so<br>• Cymdeithas Tai Gorllewin Cymru<br>• Sustrans<br>• Mudiad Meithrin<br>• Cylchoedd Preifat/Cylchoedd Chwarae<br>• Cylchoedd/ cylchoedd chwarae yn yr ysgol<br>• Cymdeithasau Cymunedol sy'n cynnal parciau ac ardaloedd chwarae<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Elusen Credu<br>• Tîm Iechyd Plant ac Anableddau y GIG<br>• Chwaraeon Anabledd Cymru |



Yn ogystal â'r cydweithredwyr mewnol ac allanol hyn, casglwyd mewnwelediadau gan blant a phobl ifanc ar draws amrywiol ddigwyddiadau.

Cyflwynwyd Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2025 i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 5 Mawrth 2025 cyn cael ei gyflwyno i’w gymeradwyo gan y Cabinet ar 1 Ebrill 2025.

# 3. Sut ydym ni’n Casglu ein Mewnwelediadau

Er mwyn sicrhau ein bod yn casglu ystod eang o safbwyntiau amrywiol ac yn asesu'r digonolrwydd chwarae yng Ngheredigion yn gywir, gwnaethom ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth. Roedd y rhain yn cynnwys ymchwil bwrdd gwaith, trafodaethau gydag ystod o weithwyr proffesiynol a sefydliadau (mewnol ac allanol), ac ymgynghoriadau â phlant a phobl ifanc, cynghorau tref a chymuned, ysgolion cynradd, a lleoliadau gofal plant cyn-ysgol, cylchoedd chwarae, a chanolfannau teulu.

**Partneriaid Mewnol ac Allanol**

I gychwyn ar y broses, gwnaethom nodi ystod eang o bartneriaid mewnol ac allanol sy'n ymwneud â darpariaeth chwarae ar draws y sir. Gwahoddwyd detholiad o'r partneriaid hyn i ddod at ei gilydd i gynnal archwiliad sgiliau a dadansoddiad CAMPUS. Roedd hyn yn ein cynorthwyo i nodi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r pedair thema allweddol a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae (ADCh):

1. Poblogaeth - anghenion a demograffeg plant yng Ngheredigion.
2. Mannau lle mae plant yn chwarae – argaeledd a hygyrchedd mannau chwarae ac adnoddau.
3. Darpariaeth dan oruchwyliaeth – argaeledd cyfleoedd chwarae sydd wedi’u trefnu a sy’n ddiogel i blant.
4. Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth, a gwybodaeth – alinio polisïau, strategaethau cyfathrebu, ac ymdrechion eiriolaeth sy'n gysylltiedig â chwarae.

O'r grŵp hwn o sefydliadau, gwnaethom nodi set graidd o bobl a oedd yn fodlon ac yn gallu ymuno â ni i sefydlu gweithgor ADCh. Byddai'r grŵp hwn yn gyfrifol am fonitro'r canfyddiadau, trafod y camau gweithredu angenrheidiol, ac olrhain cynnydd tuag at gyflawni'r camau hynny dros y tair blynedd nesaf.



**Plant a Phobl Ifanc**

Roedd sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn rhan allweddol o'r broses o gwblhau'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae. Er mwyn cyfleu eu safbwyntiau ar gyfleoedd chwarae yn eu cymunedau, cynhaliwyd Arolwg Chwarae Mawr gyda phlant a phobl ifanc ledled Ceredigion.

Gweithgareddau Gwyliau RAY Ceredigion

Cynhaliwyd y gweithgareddau hyn mewn tri lleoliad: un yn y gogledd, un yn y de, ac un yng nghanolbarth Ceredigion. Cymerwyd rhan gan gyfanswm o 79 o blant a phobl ifanc, rhwng 0 ac 16 oed. O'r cyfranogwyr, roedd 48 benyw a 31 gwryw.

Casglwyd data yn ystod y sesiynau gweithgareddau ar draws y sir. Arweiniodd staff RAY Ceredigion blant a phobl ifanc drwy'r arolwg gan ddefnyddio fformat hygyrch a oedd yn caniatáu i gyfranogwyr ddewis eu hymatebion yn hawdd. Dyluniwyd y cwestiynau i fod yn syml ac yn hawdd eu deall, gyda symbolau wedi'u hymgorffori o fformat hawdd ei ddarllen i gefnogi dealltwriaeth. Defnyddiodd y cyfranogwyr ddotiau sticer i nodi eu hatebion, gan wneud y broses yn rhyngweithiol ac yn blant-gyfeillgar.

Digwyddiad Anabledd Insport a Sesiynau Teuluoedd Cynhwysol



Cafodd y Digwyddiad Anabledd Insport ei gyd-gynnal gyda Chwaraeon Anabledd Cymru yn ne'r sir. Yn ogystal, cynhaliwyd tair Sesiwn Teuluoedd Cynhwysol ar draws y sir: un yn y gogledd, un yn y canolbarth, ac un yn y de. Cymerwyd rhan gan gyfanswm o 44 o gyfranogwyr, rhwng 0 a 19 oed, gyda 31 o’r cyfranogwyr yn wryw a 13 yn fenywaidd.

Defnyddiwyd dull tebyg ar gyfer y Sesiynau Teuluoedd Cynhwysol a'r Digwyddiad Anabledd insport. Gofynnwyd cwestiynau ar lafar i gyfranogwyr, gyda'u teuluoedd yn aml yn ymuno â'r trafodaethau. Cofnododd aelod o staff Ceredigion Actif yr ymatebion ar ffurf cyfrif i sicrhau cywirdeb a chyfranogiad gan bawb a gymerodd ran.

Myfyrwyr oedran uwchradd

Cafodd cyfranogwyr oedran uwchradd eu recriwtio drwy weithgareddau corfforol a sesiynau chwarae, clybiau ieuenctid a redir gan y gwasanaeth ieuenctid, ac ymgysylltiad uniongyrchol gan staff a phrentisiaid Ceredigion Actif. Cwblhaodd cyfanswm o 87 o bobl ifanc, rhwng 11 ac 16 oed, yr arolwg. Ymhlith y rhain, roedd 56 yn wryw a 31 yn fenywaidd.

Cynhaliwyd arolwg ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams a oedd ar gael yn yr iaith Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ogystal â'r cwestiynau a ofynnwyd gan grwpiau eraill, cafodd cwestiwn penodol ei gynnwys am ba mor aml y mae myfyrwyr yn cyfarfod neu'n chwarae gyda ffrindiau ar-lein. Defnyddiodd staff Ceredigion Actif a staff y gwasanaeth ieuenctid eu dyfeisiau i gynorthwyo myfyrwyr i gwblhau'r arolwg.

**Lleoliadau Cyn-Ysgol, Cylchoedd/Cylchoedd Chwarae, a Chanolfannau Teulu**

Fel rhan o Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2025, gwnaethom hefyd ofyn i 59 o leoliadau cyn-ysgol, cylchoedd chwarae/Cylchoedd, a chanolfannau teuluol yng Ngheredigion i gasglu mewnwelediadau i'w darpariaeth o gyfleoedd chwarae. Cynlluniwyd arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth am wahanol agweddau o ddarpariaeth chwarae, gan gynnwys cymryd rhan mewn prosiectau Ceredigion Actif, rhwystrau canfyddedig i chwarae, ac awgrymiadau ar gyfer gwella cyfleoedd chwarae.

Dosbarthwyd yr arolwg i'r lleoliadau trwy e-bost, gyda chais i'w gwblhau o fewn amserlen benodol. Cawsom 18 ymateb o'r lleoliadau hyn, gan arwain at gyfradd ymateb o 31%. Er bod hon yn gyfradd ymateb gymharol isel ac nad yw'n adlewyrchu'r sir yn ei chyfanrwydd, roedd yr adborth a gafwyd yn amrywiol ac yn graff, gan gynnig cipolwg gwerthfawr ar ddarpariaeth chwarae gyfredol. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys:

- 11 Cylchoedd Meithrin,
- 3 canolfan deuluol, a
- 4 cylch chwarae.



Mae'r gynrychiolaeth amrywiol hon yn ein galluogi i ystyried safbwyntiau gwahanol fathau o leoliadau'r blynyddoedd cynnar, er bod bylchau yn parhau o safbwynt cyflawni trosolwg cynhwysfawr.

**Ysgolion Cynradd**

Fel rhan o Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2025, gwnaethom ymgynghori â 39 o ysgolion cynradd yng Ngheredigion i gasglu mewnwelediadau i rôl chwarae o fewn amgylchedd yr ysgol. Dyluniwyd arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth am wahanol agweddau o ddarpariaeth chwarae, gan gynnwys cyfran yr amser sy'n ymroddedig i chwarae, rhwystrau i chwarae, a pholisïau ac arferion chwarae presennol. Dosbarthwyd yr arolwg i ysgolion drwy e-bost, gyda chais i aelod o staff ei gwblhau o fewn amserlen benodol.

Derbyniwyd cyfanswm o 14 ymateb, sef cyfradd ymateb o 36%. Er bod yr ymatebion yn rhoi cipolwg gwerthfawr o ddarpariaeth chwarae ysgolion cynradd, mae'n bwysig nodi bod y gyfradd ymateb gymharol isel yn golygu na ellir ystyried y canfyddiadau fel un sy'n gwbl gynrychioliadol o holl ysgolion cynradd y sir. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau.

**Cynghorau Tref a Chymuned**

Mae gan Geredigion 73 o barciau ac ardaloedd chwarae, y mae bron pob un ohonynt yn cael eu rheoli gan gynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol. Er mwyn casglu mewnwelediadau gan y cynghorau hyn, fe wnaethom gynllunio arolwg byr ar-lein yn yr iaith Gymraeg a'r Saesneg. Anfonwyd yr arolwg at glercod pob un o'r 51 cyngor tref a chymuned yng Ngheredigion a gofynnwyd am gyfleoedd chwarae, prosiectau a gynlluniwyd, ymgysylltu â'r gymuned, a rhwystrau i chwarae yn eu hardaloedd.

Cawsom 8 ymateb, gan roi cipolwg gwerthfawr o sefyllfa'r ddarpariaeth chwarae bresennol. Fodd bynnag, mae'n werth cofio bod y gyfradd ymateb isel yn golygu na ellir cyffredinoli'r wybodaeth ar draws y sir ac nad yw'n sampl gynrychioliadol o'r holl gynghorau tref a chymuned.

**Llinell amser**

Mae'r llinell amser isod yn rhoi crynodeb cryno o'r camau a gymerwyd i gwblhau'r gwaith pwysig hwn.


- **Medi 2024** Archwiliad Sgiliau a Dadansoddiad CAMPUS
- **Hyd 2024** Holiaduron plant
- **Hyd - Tach 2024** Cwblhawyd adrannau hunan-asesiad gan y Partneriaid
- **Tach - Rhag 2024** Dosbarthu holiaduron / casglu ymatebion
- **Hyd 2024 - Ion 2025** Cynhyrchu ADCh a chynllun datblygu
- **Rhag 2024:** Sefydlu Grŵp Gweithredol ADCh
- **Ion - Chwe 2025** Drafftio'r Grynodeb Weithredol
- **5.3.2025** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach
- **1.4.2025** Cyflwyno i'r Cabinet

# 4. Beth oedd ein darganfyddiadau


**Plant a Phobl Ifanc**

Cymerwyd rhan gan gyfanswm o 210 o blant a phobl ifanc 0 i 19 oed yn ein Harolwg Chwarae Mawr 2024. O'r rhain, roedd 118 yn wryw a 92 yn fenywaidd. Dyma'r hyn a ddywedwyd wrthym am eu profiadau o chwarae:


Pa mor aml ydych chi'n chwarae / cwrdd â ffrindiau?





Ble yw eich hoff le i chwarae neu gyfarfod?





Oes digon o lefydd diogel i chwarae neu gyfarfod lle rydych chi'n byw?




Sut allwn ni helpu chi i chwarae neu gwrdd â ffrindiau'n amlach?




A oes unrhyw beth yn eich rhwystro rhag chwarae?




## Lleoliadau Cyn-Ysgol, Cylchoedd/Cylchoedd Chwarae a Chanolfannau Teulu



Cawsom 18 ymateb gan leoliadau cyn-ysgol, Cylchoedd / cylchoedd chwarae, a chanolfannau teulu ledled Ceredigion. Mae'r adborth hwn yn cynrychioli cipolwg gwerthfawr ar safbwyntiau 11 Cylch, 3 canolfan deuluol a 4 cylch chwarae. Dyma'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o'u hymatebion.

Beth yw'r rhwystr mwyaf i ddarparu neu hyrwyddo cyfleoedd chwarae yn eich lleoliad?




Agweddau rhieni at chwarae. Mae rhai'n meddwl fod y cyfan yn ddyletswydd i staff ac y gallant gael hoe.

Rhieni'n cael siom pan fod plant yn gadael y lleoliad yn fwdlyd neu'n flêr o chwarae.


A yw'ch lleoliad wedi cymryd rhan mewn prosiectau blaenorol Ceredigion Actif? Ffit mewn 5, Teuluoedd Actif neu Blaze Pods?





**9** yn dweud eu bod wedi derbyn hyfforddiant staff ar gyfer y prosiectau hyn

**3** yn dwedu eu bod angen hyfforddiant staff ychwanegol

A oes gennych Bolisi Chwarae?





A fyddai gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn prosiect newydd a allai helpu i ddatblygu Amgylcheddau Chwarae Cyfoethog mewn meithrinfeydd a chanolfannau teulu?



**Ysgolion Cynradd**


Fe wnaethon ni anfon arolygon i'r 39 ysgol gynradd yng Ngheredigion, yn gofyn am eu hadborth ar gyfleoedd chwarae. Cawsom gyfanswm o 14 o ymatebion. Dyma beth rydyn ni wedi'i ddysgu o'r ymatebion a gawsom.

Beth yw'r rhwystr mwyaf i ddarparu neu hyrwyddo cyfleoedd chwarae yn eich ysgol?





Mae gennym iard a chae ond pan mae'r tywydd yn wlyb, nid yw'r plant yn gallu mynd allan i'r cau felly mae'n rhaid cyfyngu'r chwarae i'r iard

A oes gennych Bolisi Chwarae?




A gafodd unrhyw un o'ch staff hyfforddiant mentora chwarae gan Ceredigion Actif neu RAY Ceredigion fel rhan o'r Prosiect 'Amgylchedd Chwarae Cyfoethog'?




A yw'ch Llysgenhadon Ifanc yn gweithio gyda staff i ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd chwarae yn eich ysgol?




Mae'r Llysgenhadon Efydd yn helpu gyda'r gwersi Addysg Gorfforol. Mae angen i ni ddatblygu eu rôl ar yr iard felly byddem yn gwerthfawrogi unrhyw hyfforddiant i staff a phlant.


Crewyd amserlen wythnosol o weithgareddau i'w darparu gan y llysgenhadon Ifanc.

Mae'r ddarpariaeth hyfforddiant i'r llysgenhadon yn dda iawn.

## Cynghorau Tref a Chymuned

Cawsom 8 ymateb gan gynghorau tref a chymuned yng Ngheredigion. Amlygodd eu hadborth rai themâu a meysydd allweddol i'w hystyried.

Beth fyddech chi'n ei ddweud yw'r rhwystr mwyaf i chwarae yn eich cymuned?





**6** yn dwedu fod ganddynt brosiectau wedi'u cynllunio i gynyddu chwarae yn eu cymunedau

**6** yn dweud eu bod yn ymgysylltu â phant, pobl ifanc a theuluoedd wrth wneud penderfyniadau am chwarae

Rydym wedi cynnwys y gymuned gyfan i helpu ni i gynllunio parc newydd a helpu i godi arian i adnewyddu hen offer.

Ydych chi'n credu bod yr opsiynau chwarae yn eich cymuned yn gynhwysol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol?




Mae pwyllgorau bach heb yr hyder angenrheidiol i wneud hyn [datblygu ardaloedd chwarae] eu hunain heb gefnogaeth arbenigol.

Byddai ariannu [ar gyfer offer cynhwysol] o gymorth mawr, gan fod offer yn ddrud iawn.

Mae'r offer yn ddrud iawn, yn enwedig offer gynhwysol felly byddai cynllun grant sylweddol o gymorth mawr.

# 5. Deall y Canlyniadau

Amlygodd y wybodaeth a gasglwyd drwy arolygon, a thrwy adborth gan bartneriaid mewnol ac allanol, feysydd lle gellid gwella'r ddarpariaeth chwarae. Mae'r adran hon yn dadansoddi canlyniadau pob arolwg unigol yn ogystal â mewnwelediadau gan ein partneriaid gan dynnu sylw at y canfyddiadau mwyaf arwyddocaol.
Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg ar draws sawl ffynhonnell o wybodaeth. Mae'r ffaith bod y blaenoriaethau hyn wedi'u nodi'n gyson ar draws gwahanol ffynonellau yn atgyfnerthu eu pwysigrwydd a'r angen i fynd i'r afael â nhw.

**a. Plant a Phobl Ifanc**

Mae'r adborth gan blant a phobl ifanc yn tynnu sylw at gryfderau a heriau'r ddarpariaeth chwarae bresennol yng Ngheredigion. Er bod llawer o blant yn mwynhau chwarae gyda ffrindiau y rhan fwyaf o ddiwrnodau, mae rhwystrau fel diffyg llefydd diogel i chwarae, mynediad cyfyngedig i fannau addas mewn ardaloedd gwledig, a thywydd yn atal rhai rhag chwarae yn rheolaidd.

Mae'r camau allweddol sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys:

- **Gwella darpariaeth chwarae mewn ardaloedd gwledig**: Er bod gwelliant wedi'i weld o ran y maint o ddarpariaeth mewn cymunedau gwledig, mae diffyg mannau chwarae addas mewn ardaloedd lleol o hyd, yn ogystal ag angen i deithio i gael mynediad at gyfleoedd chwarae. Bydd gwella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn hygyrch i bob plentyn, waeth beth fo'u lleoliad.
- **Gwella cyfathrebu am gyfleoedd chwarae:** Dywedodd plant wrthym eu bod eisiau mwy o weithgareddau chwarae dan do ac awyr agored, a bydd cyfathrebu gwell yn sicrhau bod teuluoedd yn gwybod beth sydd ar gael iddynt.
- **Darparu cyfleoedd chwarae penwythnos am ddim neu fforddiadwy:** Nododd adborth o'r sesiynau Teuluoedd Cynhwysol a gweithgareddau gwyliau yr angen am gyfleoedd chwarae penwythnos dan do ar gost isel neu am ddim.



**b. Lleoliadau Cyn-ysgol, Cylchoedd/Grwpiau Chwarae a Chanolfannau Teulu**

Cytunodd ymatebwyr i'r arolwg Lleoliadau Cyn-ysgol, Cylchoedd / Grwpiau Chwarae, a Chanolfannau Teulu fod chwarae'n bwysig, ac maent i gyd yn mynd ati i'w hyrwyddo yn eu lleoliad. Fodd bynnag, nid oes gan 10 o’r 18 lleoliad bolisi chwarae ar hyn o bryd, sy'n nodi cyfle i gefnogi'r lleoliadau hyn wrth ffurfioli ac egluro eu dull o chwarae.

Roedd y prif rwystrau a nodwyd yn cynnwys diffyg lle, diffyg adnoddau, a phryderon ynghylch agweddau rhieni ac iechyd a diogelwch. Cafodd rhwystrau eraill, fel agweddau rhieni, iechyd a diogelwch, a diffyg arbenigedd, eu crybwyll gan un ymatebydd yn unig ac felly mae’n cynrychioli heriau unigol.

Cafodd llawer o'r lleoliadau gyfleoedd i gymryd rhan ym mhrosiectau Ceredigion Actif yn ystod y 3 blynedd diwethaf, er bod tri yn nodi bod angen hyfforddiant staff ychwanegol arnynt ar y prosiectau hynny. Nododd 17 lleoliad ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn prosiectau newydd i helpu i ddatblygu amgylchedd chwarae cyfoethog, sy'n tynnu sylw at y potensial ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.
Mae'r Camau Allweddol a nodwyd o ganlyniad i'r arolwg hwn yn cynnwys:

- **Gwella cyfathrebu am chwarae**: Amlygodd y sylwadau a gawsom ynghylch agweddau rhieni at chwarae yr angen i gyfathrebu ar fanteision chwarae, yn enwedig manteision chwaraeon risg.

- **Datblygu Polisi Chwarae:** Er mwyn helpu lleoliadau ffurfioli eu dull o chwarae, byddwn yn creu a rhannu polisi chwarae enghreifftiol, a fydd yn darparu arweiniad ar sut y gallant ddatblygu eu polisi eu hunain i gyfateb i'w hanghenion ac yna ei gyfathrebu â staff, plant a theuluoedd.



**c. Ysgolion Cynradd**

Roedd yr ymatebion gan ysgolion cynradd ledled Ceredigion, yn rhoi mewnwelediad i'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael a'r heriau sy'n wynebu ysgolion wrth gefnogi chwarae. Y rhwystrau mwyaf cyffredin oedd diffyg adnoddau, pryderon am risg ac iechyd a diogelwch, a lle cyfyngedig ar gyfer chwarae. Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at feysydd lle gallai cymorth ac arweiniad ychwanegol helpu ysgolion i wella'r ddarpariaeth chwarae.

Er gwaethaf yr heriau hyn, un o'r pethau cadarnhaol allweddol oedd effaith Llysgenhadon Ifanc Efydd, gyda phob ysgol yn dweud bod eu Llysgenhadon Ifanc yn mynd ati i gefnogi staff i ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd chwarae. Mynegodd ysgolion ddiddordeb hefyd mewn hyfforddiant staff ychwanegol i ddatblygu darpariaeth chwarae ymhellach.

Y meysydd allweddol ar gyfer gweithredu y gellir eu nodi o'r arolwg hwn yw:

- **Darparu cyfleoedd DPP:** Cefnogi datblygiad staff chwarae cyflogedig a di-dâl drwy hyfforddiant ychwanegol.
- **Gwella cyfathrebu am chwarae:** Canolbwyntio ar hyrwyddo manteision chwaraeon risg ac annog dull mwy cytbwys o gymryd risg.
- **Creu a rhannu polisi chwarae enghreifftiol:** Gweithio gydag ysgolion i ddatblygu dull clir a strwythuredig o chwarae y gellir ei rannu gyda staff, plant a theuluoedd.
- **Datblygu Siarter Chwarae:** Gweithio gyda phlant i greu ymrwymiad i chwarae, gan hyrwyddo profiadau chwarae cadarnhaol yn yr ysgol ac mewn ardaloedd chwarae lleol.
- **Cyflwyno Gemau Iard:** Rhannu gemau syml, di-adnodd y gall ysgolion eu gweithredu i wneud y mwyaf o gyfleoedd chwarae heb fawr o gost.





**d. Cynghorau Tref a Chymuned**

Mae'r adborth gan gynghorau tref a chymuned yn rhoi cipolwg gwerthfawr o’r cyfleoedd chwarae sydd ar gael ledled Ceredigion, yn ogystal â'r heriau sy'n wynebu'r cynghorau sy'n gyfrifol am reoli parciau chwarae.

Y pryderon mwyaf cyffredin oedd offer wedi heneiddio, diffyg cyllid, a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus. Ymhlith yr heriau eraill a grybwyllwyd oedd baw cŵn, sbwriel, gwledigrwydd, a'r defnydd o ardaloedd chwarae gan grwpiau eraill, fel oedolion, plant hŷn, a bwlis.

Roedd peth ansicrwydd hefyd ynghylch a oedd y cyfleoedd chwarae presennol yn gynhwysol i blant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mynegodd llawer o gynghorau yr awydd i wella eu darpariaeth a gwneud eu hardaloedd chwarae yn fwy hygyrch a chynhwysol, gyda chyllid yn cael ei nodi fel rhwystr sylweddol.

Mae'r camau allweddol a nodwyd o'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys:

- **Gwella darpariaeth chwarae mewn ardaloedd gwledig:** Nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac archwilio cyfleoedd i wella mynediad i chwarae i blant mewn cymunedau gwledig.
- **Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi gweithgareddau cymunedol awyr agored**: Cydweithio â sefydliadau i ddylunio a darparu cyfleoedd chwarae awyr agored cynaliadwy i blant a phobl ifanc.
- **Cefnogi Cynghorau Tref a Chymuned mewn ceisiadau grant:** Parhau i gynorthwyo cynghorau i gael mynediad at gyllid i wella ac uwchraddio offer chwarae, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynhwysiant.
- **Gweithio gyda phlant i ddatblygu Siarter Chwarae**: Annog ymrwymiad ar y cyd i ddefnydd cadarnhaol a pharchus o fannau chwarae drwy gyd-greu Siarter Chwarae gyda phlant mewn cymunedau lleol.



**e. Partneriaid Mewnol ac Allanol**

Yn dilyn casglu'r wybodaeth gan bartneriaid mewnol ac allanol, trafododd y Gweithgor ADCh y canfyddiadau a nodi camau allweddol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth chwarae ledled Ceredigion. Mae'r camau hyn yn hanfodol i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn yr asesiad ac arwain ein ffocws wrth symud ymlaen. Y camau allweddol a nodwyd yw:

**Gwella darpariaeth chwarae mewn ardaloedd gwledig:** Er bod sawl prosiect sy'n cael ei redeg gan Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn llwyddo i gyrraedd ardaloedd gwledig, mae ehangu'r gwasanaethau hyn yn aml yn cael ei gyfyngu gan yr adnoddau a'r cyllid sydd ar gael. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i ymestyn y ddarpariaeth i fwy o ardaloedd gwledig, lle mae mynediad at gyfleoedd chwarae yn aml yn fwy heriol.

**Gwella darpariaeth chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg**: Er bod polisïau cryf yn cefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ar draws Ceredigion, mae heriau'n parhau i fodoli o ran sicrhau cyfleoedd chwarae Cymraeg eang. Mae Ceredigion Actif, er enghraifft, yn cynnig gwasanaethau dwyieithog, a felly y Gwasanaeth Ieuenctid, sydd hefyd yn cydweithio â phartneriaid eraill i ddarparu gweithgareddau Cymraeg. Fodd bynnag, gall darparwyr allanol neu ymwelwyrnad ydynt yn siarad Cymraeg greu bwlch yn y ddarpariaeth, a gall cyfyngiadau ariannol a staffio effeithio ar y gallu i gynnal gweithgareddau yn gyfan gwbl yn yr iaith Gymraeg.

**Sicrhau bod cyfleoedd chwarae hygyrch i ofalwyr ifanc:** Mae Ceredigion wedi dangos ymrwymiad cryf i ofalwyr ifanc, yn enwedig gyda'i Wobr Achredu Efydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr diweddar. Mae llawer o enghreifftiau cadarnhaol o gyfleoedd chwarae i ofalwyr ifanc yn bodoli, a ddarperir yn aml gan Gofalu Ceredigion. Fodd bynnag, mae argaeledd y gwasanaethau hyn yn gallu cael eu cyfyngu gan gyfyngiadau oedran, gan fod rhai gweithgareddau'n ei gwneud yn ofynnol i oedolyn fod yn bresennol, sy'n atal y gofalwyr rhag cael seibiant o'u cyfrifoldebau. Ar ben hynny, mae diffyg cyfleoedd digonol i ofalwyr ifanc 11-18 oed.



**Sicrhau bod cyfleoedd chwarae rhyw-sengl i'w cael:** Mae Ceredigion yn darparu nifer o gyfleoedd cadarnhaol i ferched, megis rhaglenni cyfranogiad chwaraeon ac ymgysylltu â'r gymuned, gyda gweithgareddau i ferched yn unig yn cael eu cynnig drwy ysgolion a chlybiau ar ôl ysgol. Mae'r sir hefyd yn rhedeg Cynllun Urddas Mislif gyda'r nod o fynd i'r afael â thlodi mislif.

Fodd bynnag, mae bwlch yn parhau o ran cyfleoedd chwarae i ferched yn unig yn ystod gwyliau'r ysgol, sy'n cyfyngu ar allu merched i gael mynediad at weithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion penodol yn ystod yr amseroedd hyn.

Mae gweithwyr cymorth ffoaduriaid yn nodi anawsterau wrth ddarparu gweithgareddau rhyw-sengl i blant, yn enwedig mewn cymunedau ethnig lleiafrifol lle gall ystyriaethau diwylliannol gyfyngu ar gyfranogiad mewn gweithgareddau cymysg o ran rhywedd.

**Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddylunio a darparu gweithgareddau cymunedol awyr agored cynaliadwy:** Amlygodd adborth gan bartneriaid yr angen am weithgareddau mwy cynaliadwy yn hytrach na digwyddiadau untro. Mae'r sesiynau presennol, fel y diwrnodau gweithgaredd hwyl am ddim, yn werthfawr ond yn gyfyngedig o ran amser. Dylai partneriaid weithio gyda'i gilydd i greu rhaglenni tymor hir sy'n grymuso grwpiau lleol ac yn meithrin ymgysylltiad parhaus, gan sicrhau bod y gweithgareddau hyn nid yn unig yn gynaliadwy ond yn effeithiol yn y tymor hir hefyd.

**Gwella cyfathrebu am chwarae, gan gynnwys cyfleoedd i chwarae:** Er bod enghreifftiau cadarnhaol o gyfathrebu, megis defnyddio gwefan Dewis Cymru i restru parciau ac adnoddau chwarae cymunedol, mae gwybodaeth am gyfleoedd chwarae yn aml yn dameidiog ar draws sawl platfform. Er bod sianeli cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n helaeth i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau, efallai y bod gorddibyniaeth ar y

lwyfannau hyn. Mae'n hanfodol archwilio dulliau cyfathrebu amgen er mwyn sicrhau dull mwy effeithiol a chynhwysol o rannu cyfleoedd chwarae ledled Ceredigion.



**Gwella'r pecynnau chwarae sydd ar gael mewn llyfrgelloedd i gwmpasu syniadau chwarae am ddim neu am gost isel:** Mae Ceredigion Actif wedi partneru â llyfrgelloedd ar draws y sir i ddarparu pecynnau gweithgareddau am ddim a beiciau balans i deuluoedd eu benthyca. O ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, gellid ehangu'r adnoddau hyn i gynnwys syniadau ar gyfer cyfleoedd chwarae rhad ac am ddim neu o gost isel. Mae angen datblygu taflenni gyda syniadau gêm cost isel a chynyddu hyrwyddo'r pecynnau chwarae ledled Ceredigion.

**Darparu cludiant am ddim i ddigwyddiadau chwarae allweddol yng Ngheredigion:** Daeth trafnidiaeth i'r amlwg fel thema gylchol yn yy ADCh, ac fe nodwyd pryderon gan bartneriaid ynghylch hygyrchedd, yn enwedig ar gyfer cymunedau gwledig, teuluoedd ar incwm isel, teuluoedd â phlant anabl, a'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig. Mae digwyddiadau chwarae allweddol, fel Diwrnod Chwarae Ray Ceredigion a'r sioe Haf deithiol a drefnir gan Porth Cymorth Cynnar, yn cynnig cyfleoedd chwarae gwerthfawr ar draws y sir. Fodd bynnag, mae rhwystrau trafnidiaeth yn cyfyngu mynediad i rai teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw ymhell o leoliadau'r digwyddiadau. Byddai cynnig cludiant am ddim i'r digwyddiadau hyn yn sicrhau cynnydd mewn cyfranogiad, gan alluogi plant a theuluoedd i gael mynediad i weithgareddau chwarae ac ymgysylltu â gwasanaethau cefnogol.

**Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol**

Mae'r arolygon a gynhaliwyd ledled Ceredigion wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar brofiadau a safbwyntiau chwarae amrywiol yn y gymuned. Mae'r ymatebion a gawsom gan blant, rhieni, rhanddeiliaid cymunedol, a phartneriaid mewnol ac allanol, wedi bod yn allweddol wrth nodi meysydd allweddol i'w gwella. Bydd y canfyddiadau hyn nawr yn llywio ein cynllun gweithredu wrth i ni weithio tuag at fynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd a sicrhau bod gan bob plentyn yng Ngheredigion fynediad at gyfleoedd chwarae o safon, sy’n gynhwysol a chynaliadwy.

# 6. Ein Cynllun ar gyfer y Dyfodol

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhagweld dyfodol lle bydd gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad at gyfleoedd chwarae diogel, cynhwysol ac amrywiol. Ein huchelgais yw creu amgylcheddau sy'n cefnogi chwarae rhydd ac ystyrlon, gan feithrin datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Ategir y weledigaeth hon gan y dyhead:

"Bod pawb yng Ngheredigion yn cael cyfle i chwarae fel rhan o fywyd iach a gweithgar."

Er mwyn cyflawni hyn, mae ein dull gweithredu yn cael ei arwain gan yr amcanion allweddol canlynol:

- Cynnig darpariaeth chwarae ddiogel, hygyrch a chynhwysol yn agos at ble mae pobl yn byw
- Meithrin gweithlu chwarae hyderus, cymwysedig
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu ar gyfer cyfleoedd Chwarae teg a chynaliadwy
- Sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn llywio Cynllun Gweithredu Chwarae Ceredigion.

Gan adeiladu ar y mewnwelediadau a gafwyd gan ein partneriaid ac ymgynghoriadau cymunedol, mae'r cynllun hwn yn amlinellu cyfres o gamau gweithredu wedi'u targedu sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â heriau allweddol a manteisio ar gyfleoedd i wella'r ddarpariaeth chwarae.

Bydd gweithgor ADCh yn gyfrifol am fonitro'r cynnydd i'r camau allweddol a nodwyd, gan gyfarfod yn flynyddol i adolygu ac addasu strategaethau, gan sicrhau bod chwarae yn parhau i fod yn rhan hanfodol o lesiant cymunedol yng Ngheredigion.

**Camau Craidd**

- Gwella darpariaeth chwarae mewn ardaloedd gwledig. (Nodwyd gan yr Archwiliad Chwarae Mawr 2024)
- Gwella darpariaeth chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau bod cyfleoedd chwarae hygyrch i ofalwyr ifanc.
- Sicrhau bod cyfleoedd chwarae rhyw sengl i'w cael.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddylunio a darparu gweithgareddau cymunedol awyr agored cynaliadwy.
- Darparu cyfleoedd DPP pwysig i weithwyr chwarae cyflogedig a di-dâl. (Nodwyd gan yr Archwiliad Chwarae Mawr 2024)

**Camau Craidd - parhâd**

- Gwella cyfathrebu am chwarae, gan roi sylw arbennig i: (Nodwyd gan Arolwg Chwarae Mawr 2024)
    - manteision chwarae,
    - hyrwyddo cyfleoedd i chwarae,
    - manteision chwaraeon peryglus a derbyn fod risg yn rhan annatod o chwarae plant.
- Creu a rhannu polisi chwarae enghreifftiol i ysgolion a lleoliadau eraill, er mwyn egluro a chyfleu eu hymagwedd at chwarae plant. (Nodwyd gan Arolwg Chwarae Mawr 2024)
- Parhau i gefnogi Rhwydwaith Ardal Chwarae a Chynghorau Tref a Chymuned mewn ceisiadau grant i wella ac uwchraddio offer chwarae a datblygu darpariaeth gynhwysol ymhellach. (Nodwyd gan Arolwg Chwarae Mawr 2024)

**Camau sy'n Deillio o'r Ymgynghoriadau**

- Annog Canolfannau Hamdden / Canolfannau Lles i ddarparu gweithgareddau chwarae penwythnos rhad ac am ddim/rhaesymol. (Nodwyd gan Arolwg Chwarae Mawr 2024)
- Gweithio gyda phlant i greu siarter chwarae (ymrwymiad i chwarae'n braf) ar gyfer eu hysgol a'u hardaloedd chwarae lleol. (Nodwyd gan Arolwg Chwarae Mawr 2024)
- Cyflwyno gemau iard, lle nad oes angen adnoddau, i ysgolion cynradd. (Nodwyd gan Arolwg Chwarae Mawr 2024)
- Gwella'r pecynnau chwarae sydd ar gael mewn llyfrgelloedd a Chanolfannau Teulu i gwmpasu syniadau chwarae rhad ac am ddim neu ar gost isel.
- Darparu cludiant am ddim i ddigwyddiadau chwarae allweddol yng Ngheredigion.
- Gwella darpariaeth Teuluoedd Cynhwysol i gynnwys sesiynau oriau tawel. (Nodwyd gan Arolwg Chwarae Mawr 2024)





Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council